Cardiff Council Update: 28th August

Welcome to the last update from Cardiff Council this week, covering: a reminder to residents and visitors to follow social distancing this weekend; news of a planned protest by Extinction Rebellion; the Council's position on face coverings in schools; bank holiday waste collection arrangements; changes to bulky collections; and details on the ongoing support the Council is providing for people who are shielding.

Enjoy the Bank Holiday safely this weekend

With the latest figures showing that COVID-19 is on the increase in Cardiff, residents and visitors are being asked to take care and to follow social distancing requirements as they enjoy the August Bank Holiday weekend.

The current infection rate for Cardiff and the Vale of Glamorgan stands at 10.8 per 100,000.

Although daily fluctuations in the figures are to be expected, the number of new cases in Cardiff is 13.9 per 100,000 of the population.

This increase has seen local case numbers shift from being significantly below the average in England to above it (the average in England stood at 11.9 per 100,000 on 18 August –the last published data).

Within this, the rate of tests coming back as positive has also increased from 0.3% at the start of August to 2.3% over the last 7days.

The latest figures, shared by the Cardiff and Vale Test, Trace, Protect partnership, also show an increase in cases amongst adults in their 20s and 30s.

Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24592.html

Extinction Rebellion protests

Extinction Rebellion are holding protests in Cardiff from today, Friday, August 28th until Saturday, September 5th.

The Council is concerned about the possible risk of transmission of the virus, especially at a time when infection rates are spiking across the United Kingdom. We did ask Extinction Rebellion to reconsider their protest plans.

The Council has issued a statement on these planned protests which can be read here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24615.html

Face coverings to be worn by all school based staff and secondary school pupils

Cardiff Council is strongly recommending that all school based staff and mainstream secondary school pupils wear face coverings when moving around corridors, in communal areas such as lifts, stairwells, toilets and in situations where social distancing cannot be observed.

In order to help schools follow the guidance, the Council will be supplying every member of school staff and every mainstream secondary school pupil with two re-useable masks when term begins in September.

Secondary school pupils will also have to wear face masks when using mainstream school buses and public transport to travel to and from school.

The new guidance is in line with the updated advice from Welsh Government relating to the wearing of face coverings in school and, as part of a risk assessment, it is one of a series of measures designed to help stop the spread of COVID-19.

Read more, including advice for primary schools, here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24610.html

August Bank Holiday – No change to waste and recycling collection dates

Your collection day will remain the same over the August Bank Holiday Monday this year, but collection times may change so please ensure your waste is out by 6am.

Waste collection services will operate on Monday 31st August and there will be no change to collection dates for the rest of the week.

Our waste collection team will work across the bank holiday to ensure the collection service continues efficiently.

If you're unsure if an item can go into your recycling bag, please check our Recycling A-Z.

The Council is still here to help

Cardiff Council is reminding residents that services to help and support households who need it are still in place in the city.

The Council is encouraging anyone who needs help with accessing food, collecting prescriptions, money advice, into work help and more, to get in touch with the Adviceline on 029 2087 1071 to discuss what support is available.

Throughout the COVID-19 crisis, the Council provided a range of assistance to residents who were shielding, self-isolating or struggling to buy essentials because of the impact of the pandemic. The Council has helped co-ordinate the Welsh Government food parcel scheme and has directly provided around 6,000 food parcels in total to those in need.

Following the pausing of shielding arrangements on August 16, the Welsh Government food parcel scheme has ceased, however, the Council understands that many people may require ongoing support despite the easing of measures.

The authority has written to around 12,500 people in the city to advise of available support and is also making calls to the 1,400 shielding households who previously received food parcels.

Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24602.html

Your bulky waste collection service is changing

You will soon be able to book a bulky waste collection service online and through the Cardiff Gov App as well as over the phone, helping to make the booking process easier and more user-friendly.

Residents will be able to use this booking service in the next few weeks and the launch date will be announced shortly.
We collect a number of items free of charge.
However some items have a collection fee of £12.50 for 2 items.
Free collections are dependent on the material, whether there is a recycling market available for the material, and the quality of the items collected.
From 26th August:

Materials we collect for free

✓ Large electrical appliances
✓ Metal items
✓ Hard plastics
✓ UPVC windows and frames
✓ Spring mattresses
✓ White goods

Materials which have a collection charge

✓ Items made from a mixture of materials such as a wooden cabinet with glass doors
✓ Items made from wood, MDF or laminate
✓ Ceramic, tile or stone items
✓ Carpet
✓ Divan bed bases

Please note, you can still bring all of these items to our recycling centres free of charge.
Find out more here: www.cardiff.gov.uk/bulkycollections

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 28 Awst

Croeso i ddiweddariad olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd yn cynnwys: Croeso i'r diweddariad diwethaf gan Gyngor Caerdydd yr wythnos hon, gan gynnwys: atgoffa trigolion ac ymwelwyr i gadw pellter cymdeithasol y penwythnos hwn, newyddion am brotest arfaethedig gan Gwrthryfel Difodiant, safbwynt y Cyngor ar orchuddion wyneb mewn ysgolion, trefniadau casglu gwastraff gŵyl banc a newidiadau i gasgliadau eitemau swmpus yn ogystal â manylion am y cymorth parhaus y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i bobl sy'n cysgodi.

Mwynhewch Ŵyl y Banc yn ddiogel y penwythnos hwn

Gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod COVID-19 ar gynnydd yng Nghaerdydd, gofynnir i breswylwyr ac ymwelwyr ofalu a chadw at ofynion cadw pellter cymdeithasol wrth iddynt fwynhau penwythnos gŵyl y banc fis Awst.
Y gyfradd heintio bresennol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg yw 10.8 fesul 100,000.
Er y disgwylir amrywiadau dyddiol yn y ffigurau, mae nifer yr achosion newydd yng Nghaerdydd, dros y 7 diwrnod diwethaf, wedi codi i 13.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Mae'r cynnydd hwn wedi gweld niferoedd yr achosion lleol yn symud o fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd yn Lloegr i fod yn uwch na'r cyfartaledd (y cyfartaledd yn Lloegr yw 11.9 fesul 100,000 o bobl ar 18 Awst).
O fewn hyn, mae cyfradd y profion sy'n cael canlyniad positif hefyd wedi cynyddu, o 0.3% ar ddechrau mis Awst i 2.3% dros y 7 diwrnod diwethaf.
Mae'r ffigurau diweddaraf, a rennir gan bartneriaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro, hefyd yn dangos cynnydd yn nifer yr achosion ymhlith oedolion yn eu 20au a'u 30au.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24593.html

Protestiadau Gwrthryfwel Difodiant

Mae'r Cyngor wedi cael gwybod fod Gwrthryfel Difodiant yn bwriadu cynnal protestiadau yng Nghaerdydd o heddiw, Awst 28, hyd at Ddydd Sadwrn, Medi 5.

Mae'r Cyngor yn amlwg yn pryderu am risg trosglwyddo'r feirws, yn enwedig ar adeg pan fo cyfraddau heintio'n cynyddu ledled y Deyrnas Gyfunol. Rydym hefyd yn pryderu bod y protestiadau'n digwydd wrth i ysgolion baratoi i ailagor yn y ddinas. Dyna pam y gofynon ni i Gwrthryfel Difodiant ailystyried eu cynlluniau protest.
Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad ar y protestiadau arfaethedig hyn y gellir eu darllen yma: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24613.html

Dylai holl staff a disgyblion ysgolion uwchradd wisgo gorchuddion wyneb

Mae Cyngor Caerdydd yn argymell yn gryf bod holl staff a disgyblion ysgolion uwchradd y brif ffrwd yn gwisgo gorchuddion wyneb wrth symud trwy goridorau a mannau cymunedol megis lifftiau, grisiau a thoiledau ac mewn sefyllfaoedd lle na ellir cadw pellter cymdeithasol.

Er mwyn helpu ysgolion i ddilyn y canllawiau, bydd y Cyngor yn cyflenwi dau fasg amldro i bob disgybl ac aelod o staff ysgol uwchradd pan fo'r tymor yn dechrau ym mis Medi.

Yn ogystal bydd yn rhaid i ddisgyblion ysgolion uwchradd wisgo masgiau wyneb wrth ddefnyddio bysus ysgol prif ffrwd a thrafnidiaeth gyhoeddus i deithio i'r ysgol ac yn ôl.

Mae'r canllawiau newydd yn cyd-fynd â'r cyngor diweddar gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ysgol ac, fel rhan o asesiad risg. Mae'n un o gyfres o fesurau a gynlluniwyd i helpu i atal lledaeniad COVID-19

Darllenwch fwy
yma: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24611.html

Dydd Llun Gŵyl y Banc Mis Awst – Dim Newid i Ddyddiadau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Bydd eich diwrnod casglu yn aros yr un fath dros dydd Llun Gŵyl y Banc mis Awst eleni, ond mae'n bosibl y bydd amseroedd y casgliad yn newid felly gofalwch eich bod yn rhoi eich gwastraff allan erbyn 6am.

Bydd y gwasanaeth casglu gwastraff ar waith ddydd Llun 31 Awst ac ni fydd unrhyw newid i ddyddiadau casglu am weddill yr wythnos.

Bydd ein tîm casglu gwastraff yn gweithio drwy gydol gŵyl y banc i sicrhau bod y gwasanaeth casglu yn parhau'n effeithiol.

Os nad ydych yn siŵr os oes modd rhoi eitem benodol yn eich bag ailgylchu gwyrdd, darllenwch ein canllaw Ailgylchu A-Y.

Mae'r Cyngor yma o hyd i helpu

Mae Cyngor Caerdydd yn atgoffa trigolion bod gwasanaethau i helpu a chefnogi aelwydydd sydd eu hangen yn dal i fod ar waith yn y ddinas.

Mae'r Cyngor yn annog unrhyw un sydd angen help i gael gafael ar fwyd, casglu presgripsiynau, cyngor ariannol, cymorth gwaith a mwy, i gysylltu â'r Llinell Gymorth ar 029 2087 1071 i drafod pa gymorth sydd ar gael.

Drwy gydol argyfwng COVID-19, rhoddodd y Cyngor amrywiaeth o gymorth i drigolion a oedd yn hunan-warchod, yn hunan-ynysu neu'n ei chael yn anodd prynu hanfodion oherwydd effaith y pandemig. Mae'r Cyngor wedi helpu i gydlynu cynllun parseli bwyd Llywodraeth Cymru ac mae wedi darparu cyfanswm o tua 6,000 o barseli bwyd yn uniongyrchol i'r rhai mewn angen.

Yn dilyn rhewi'r trefniadau amddiffyn ar 16 Awst, mae cynllun parseli bwyd Llywodraeth Cymru wedi dod i ben, ond mae'r Cyngor yn deall y gallai fod angen cymorth parhaus ar lawer o bobl er gwaethaf lleddfu'r mesurau.

Mae'r awdurdod wedi ysgrifennu at tua 12,500 o bobl yn y ddinas i roi gwybod am y cymorth sydd ar gael ac mae hefyd yn galw ar y 1,400 o aelwydydd sy'n hunan-warchod a oedd gynt yn derbyn parseli bwyd.

Darllenwch fwy yma: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24603.html

Mae eich Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus yn newid

Cyn bo hir, byddwch yn gallu archebu gwasanaeth casglu gwastraff swmpus ar-lein a thrwy App Cardiff Gov yn ogystal â dros y ffôn, gan helpu i wneud y broses archebu'n haws ei defnyddio.
Bydd preswylwyr yn gallu dechrau defnyddio'r gwasanaeth archebu hwn ryw ben yn ystod yr wythnosau nesaf a chyhoeddir y dyddiad lansio cyn bo hir.
Rydyn ni'n casglu nifer o eitemau am ddim.
Codir tâl ar rai eitemau, sef £12.50 am 2 eitem.
Mae'r eitemau rydyn ni'n eu casglu am ddim yn dibynnu ar y deunydd, a oes marchnad ailgylchu ar gyfer y deunydd, ac ansawdd yr eitemau sy'n cael eu casglu.
O 26 Awst:

Deunyddiau y byddwn yn eu casglu am ddim

✓ Offer trydanol mawr
✓ Eitemau metel
✓ Plastigau Caled
✓ Fframiau a ffenestri UPVC
✓ Matresi sbring
✓ Nwyddau gwyn

Deunyddiau y bydd yn rhaid talu am eu casglu

✓ Eitemau wedi eu gwneud o gyfuniad o ddeunyddiau megis cwpwrdd pren gyda drysau gwydr
✓ Eitemau wedi eu gwneud o bren, MDF neu lamined
✓ Eitemau ceramig, teils neu garreg
✓ Carpedi
✓ Gwaelod gwelyau difán
✓ Matresi sbwng cof
✓ Soffas a chadeiriau breichiau

Sylwer, gallwch barhau i ddod â'r holl eitemau hyn i'n canolfannau ailgylchu yn rhad ac am ddim.

Mae rhagor o wybodaeth yma: www.caerdydd.gov.uk/casgliadauswmpus